
# heddwch

gaeaf 2001-2
rhif 27
am ddim (neu gyfraniad)

## cylchgrawn CND Cymru




graffig: Dai Owen

# ymateb di-drais i frawychiaeth

y tu fewn:
ymgyrchu dros heddwch ar lefel y gymuned
yn cofio y byncar bridgend 1981 ★ dathlu greenham

**Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch a diarfogi rhyngwladol a byd lle mae'r adnoddau anferth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddibenion milwrol wedi eu hailgyfeirio i ateb gwir anghenion y ddynolryw**

# CND Cymru : yn erbyn rhyfel, yn erbyn brawychiaeth

*Mae CND Cymru yn llwyr gondemio gweithredoedd anfad brawychiaeth unrhyw le yn y byd. Ni all dim gyfiawnhau'r troseddau ofnadwy hyn.

*Rydym yn gwrthwynebu ymateb milwrol yn erbyn Afghanistan, Irac a/neu wledydd eraill. Ni all rhyfel leihau perygion ymosodiadau gan frawychwyr. Rhaid mynd i'r afael â'r achosion sydd wrth wraidd brawychiaeth. Mae trais yn esgor ar drais. Mae rhyfel, a pharatoi at ryfel, yn achosi niwed anferth i'r amgylchedd, yn cynyddu ymdeimiad o anghyfiawnder ymhlith pobl orthrymedig a di-rym yn mhedwar ban y byd, ac yn creu amgylchedd ffrwythlon ar gyfer recriwtio brawychwyr. Dim ond cyfiawnder, cydweithrediad, dealltwriaeth a pharch all ddod â diogelwch gwirioneddol i holl bobloedd y byd, nid gwariant milwrol bythol gynyddol.

*Credwn y dylai'r Unol Daleithau a Phrydain weithredu ar sail y gyfraith ryngwladol, gan ddilyn Siarter y CU a gweithio drwy ddulliau arferol y gyfraith estraddodi, i ddod â'r troseddwyr a gyflawnodd y gweithredoedd anfad hyn ger bron llys. Byddai defnyddio proses y gyfraith, yn hytrach na phroses rhyfel, yn ateb llawer mwy deallus.

*Rhaid rhoi terfyn ar ymosodiadau a rhagfarn gwrth-Fwslemaidd a sefydlu rhaglen weithredol i annog dealltwriaeth rhwng grwpiau ac unigolion yng Nghymru.

*Gwrthwynebwn y cyfyngu ar ein hawliau sifil yn enw gwrthfrawychiaeth. Ni allwn amddiffyn rhyddid drwy ei ddinistrio.

*Rydym yn ymrwymedig i ymgyrchu yn erbyn y 'rhyfel' yma drwy ddulliau di-drais yn unig.

# Ymgyrchu dros heddwch ar lefel y gymuned

Rwyf wrth fy modd yn cael ysgrifennu i Heddwch fel cadeirydd newydd-etholedig CND Cymru. Fe es i i fy nghyfarfod CND cyntaf yn Neuadd Eglwys San Steffan, Ystrad Rhondda ym 1981 - cyfarfod sefydlu cangen Rhondda o CND. Er i mi fod yn cefnogi'r ymgyrch yn erbyn storio gwastraff niwclear yng Nghymru ac yn erbyn pwer niwclear fel myfyriwr yn Aberystwyth, nid oeddwn yn gwybod rhyw lawer am arfau niwclear na'r ras arfau bryd hynny. Newidiodd hynny'n fuan! Yn y cyfarfod cyntaf fe'm etholwyd yn swyddog y wasg CND Rhondda ac o'r funud honno ymlaen bu'r mudiad heddwch yn chwarae rhan canolog yn fy mywyd. Ar un adeg teimlai fel cyfres di-bendraw o raliau, cyfarfodydd cyhoeddus, protestiadau a gwersylloedd heddwch - o fwncer Penybont i Greenham. Yn fy ngwaith yn awr fel Aelod o'r Senedd Ewropeaidd nid yw'n llai pwysig. Fe'm darparodd gyda gwerthoedd sydd yn sail i'm gwleidyddiaeth.

Er gwaethaf y cefndir perthnasol yma mae'r cyfrifoldeb o gadeirio CND Cymru yn sylweddol. Am flynyddoedd lawer bu'n darparu arweinyddiaeth, cefnogaeth, gwybodaeth ac ysbrydoliaeth i nifer o bobol yng Nghymru. Y mae'n hollbwysig na gollir y bri yma a roddir iddo. Ac yn awr y mae'n bwysicach fyth i gyflawni ein rol o arwain y mudiad heddwch ac ymgyrchu yn gryf yn erbyn y rhyfel yn Affganistan. Tra'n condemnio'r ymosodiadau erchyll ar yr Unol Daleithiau, ni ellir ennill y "rhyfel yn erbyn terfysgaeth" trwy fomio un o wledydd tlotaf y byd gyda hyd bywyd yn 40 o flynyddoedd ar gyfartaledd a miloedd yn gwynebu newyn.Ni fydd yn dwyn y drwgweithredwyr i gyfrif ac fe fydd yn achosi mwy o farwolaethau, dinistr a chasineb.

Mae rhai yn awgrymu y bu'r bomio yn llwyddiannus, ond edrychwch ar y tystiolaeth i'r gwrthwyneb. Mae llawer o bobol ddiniwed wedi marw, nid yw Osama bin Laden wedi ei arestio, torrwyd ar draws dosbarthu'r bwyd ac mae Cynghrair y Gogledd yn rheoli - sydd a record yr un mor wael, os nad yn waeth na'r Taliban o ran iawnderau dynol ac yn arbennig hawliau menywod. Mae Amnest Rhyngwladol wedi cyhoeddi datganiad yn cyhuddo llywodraeth Prydain o fod yn gydran i droseddau iawnderau dynol wrth iddynt gefnogi cynghrair y gogledd.

Byddai synnwyr cyffredin y rhan fwyaf o bobl yn dweud wrthynt fod Medi'r 11eg wedi dangos, heb os nac oni baí, mai ffolineb llwyr yw System Genedlaethol George W. Bush i Amddiffyn rhag Taflegrynnau - ffolineb nad ydyw'n unrhyw fath o ateb i'r bygythiad gan "elynion"; nid felly Mr Bush. A dyma pam mae'n rhaid inni ymgyrchu ddwywaith mor galed yn erbyn Son of Star Wars - sydd ei hun yn torri Cytundeb Gwrth-Daflegrynau Balistig 1972 ac yn llythrennol godi'r ras arfau i lefel uwch.

Ychydig wythnosau yn ôl, cefais y fraint o gyfarfod Ei Sancteiddrwydd y Dalai Lama wedi iddo annerch y Senedd Ewropeaidd am y tro cyntaf. Dywedodd ei bod yn sialens i'r gymuned ryngwladol gyfan i sicrhau mai canrif o ddeialog a dull di-trais fydd hon yn hytrach nac un o ryfel a thywallt gwaed. Cefais fy ysbrydoli gan ei eiriau amserol iawn.

Mae CND Cymru yn gweithio dros ddiarfogi a heddwch rhyngwladol. 'Rydym yn ceisio datrys gwrthdaro yn heddychlon ac o fewn y gyfraith ryngwladol. Mae digwyddiadau diweddar wedi profi pa mor hanfodol yw lledaenu meddylfryd newydd a fod nifer o bobl Cymru yn cefnogi hynny.

Ac at CND Cymru y mae llawer o bobl wedi troi yn yr argyfwng rhyngwladol diwethaf yma. Mae'r rhyfel yma wedi cadarnhau ein rôl, fel y gwnaeth pob ymgyrch yn y gorffennol. Mae llwyddiant CND yn deillio o'i agosatrwydd i'r bobl - ac felly ei berthnasedd i'w bywydau bob dydd. Mae'n dod â'r sefyllfa rhyngwladol i lefel leol. Mae CND Cymru yn wir adlewyrchiad o'r traddodiad o heddwch a chymodi yng Nghymru. Yn fy rôl newydd fel Cadeirydd, 'rwy'n edrych ymlaen i barháu'r gwaith da sydd wedi cael ei wneud dros y blynyddoedd ac i sichrau y caiff ein neges o heddwch ei chlywed ledled Cymru.

**Jill Evans ASE Cadeirydd CND Cymru**

# Ymateb di-drais i frawychiaeth

Roeddwn i yn Efrog Newydd. Roeddwn yn aros gwta ddwy filitir o Ganolfan Fasnach y Byd. Gwelais â'm llygaid fy hun yr ail awyren yn bwrw twr deheuol y Ganolfan, y belen dân, yr adeiladau'n disgyn, a'r cwmwl madarch ofnadwy hwnnw o fwg pygddu a llwch. Gan sefyll ar 7th Avenue yn gwylio'r cwbl, roeddwn yn arswydo. Mae defnyddio pobl ddiniwed i ddinistrio pobl ddiniwed yn drosedd mor ofnadwy fel mai prin y gellir ei mynegi. Gallwn glywed pobl yn gweiddi 'Oh my God, Oh my God, Oh my God' ac eto gwyddwn, yng nghanol yr arswyd, fod yn rhaid i ras a doethineb drechu.

Mae bywydau'r mawrion Mahatma Mohandas Gandhi a Martin Luther King, Jr. yn dangos i ni, o'r Dwyrain ar Gorllewin, enghreifftiau o'r hyn y gellir ei gyflawni drwy weithredu di-drais. Ond dim ond enghreifftiau yw'r rhain: nid yw holl bwer gweithredu di-drais wedi cael ei ganfod hyd yma. Yn wyneb yr argyfwng yma, efallai y gallwn ddechrau darganfod holl gyfoeth y posibiliadau hynny. Cafwyd pwer byddinoedd a nerth y bom atomig yn ddiffygiol. Mae llafn rasel, a ddefnyddiwyd â chasineb llwyr, wedi gadael arfau niwclear yn ddi-rym.

Cafodd trais ei ddefnyddio drwy gydol hanes y ddynolryw, ac eto, nid yw'n gallu dod â chanlyniadau teilwng. Pe bai pobl yr Unol Daleithau wedi gallu dewis ymateb di-drais, byddai eu gweithred wedi cael ei gweld ym mhedwar ban y byd nid fel gwendid ond fel y cryfder moesol dyfnaf a mwyaf pwrpasol.

Dim ond brig ton o deimlad oedd dinistr Canolfan Fasnach y Brig, amlygiad gweledol ofn a chasineb ofnadwy yn y byd tuag at y gwledydd cyfoethog a grymus, y mae Unol Daleithau America yn eu hymgorffori. Yn Seattle, yn Genoa, yn y bomio a fu ar y llysgenadaethau yn Kenya a Tanzania, gwelsom rwystredigaeth y gwan a'r amddifad yn ei amlygu ei hun mewn protest dreisgar. Os na ddilynwn y liwybr di-drais, fe fydd ymosodiadau braw eraill. Mae hynny'n ffaith ddiymwad. Mae trais yn esgor ar drais. Rhaid i ni ddatguddio gwreiddiau brawychiaeth ac ymrwymo i ddatrys achosion y fath gasineb.


Rhaid i lywodraethau ddiogelu ac amddiffyn eu dinasyddion. Ond ochr yn ochr â hynny, rhaid i ni greu diwyllant rhyngwladol newydd o heddwch. Heddwch yw'r diogelwch eithaf, sy'n fwy nag unrhyw amddiffyniad y gall unrhyw lywodraeth neu gorff arfog ei ddarparu. Rydym yn gwario cymaint o arian ar ein lluoedd arfog ac arfau. Pe gellid neilltuo hanner yr adnoddau hynny i ddod â gwrthdaro i ben yn heddychlon, yna efallai y gwelem ryw ddaioni yn deillio o'r weithred drasig hon.

Rhaid goresgyn thrais â gweithredu di-drais, rhaid i gariad oresgyn casineb. Mae tân ofnadwy wedi gafael yng nghalon ac enaid yr Unol Daleithau. Ond pan fydd y fath dân yn deifio, rhaid ei ddiffodd gyda dyfroedd oer tosturi. Dim ond felly y gallwn greu testament parhaus; na fydd aberth cymaint o bobl yn ofer ond y bydd yn cael ei defnyddio i arwain pobl i mewn i gyfnod newydd heddychlon a di-drais. Dyma beth yw gwiadweinyddiaeth, dyna yw gwir arweinyddiaeth.

Methodd Unol Daleithiau America ddatrys y gwrthdaro yn Fietnam drwy ryfel, dim ond drwy negydu. Daethpwyd â heddwch i Ogledd Iwerddon drwy siarad. Felly, boed cynhadledd o bob achwynydd o dan nawdd y Cenhedloedd Unedig yn Genefa, lle gall Saddam Hussein, Bin Laden, Hezbulla, Hamas, Taliban a mudiadau eraill a orfodwyd i ddilyn llwybrau brawychiaeth ddod wyneb yn wyneb â llywodraethau UDA, Israel a chenhedloedd eraill y byd. Ochr yn ochr â'r ymdrechion yn erbyn brawychiaeth, boed i ni geisio dileu achosion brawychiaeth. Fel y dwedodd Tony Blair unwaith, 'Yn galed ar droseddu, yn galed ar achosion troseddu". Os gallwn ddatrys gwrthdaro yn Fietnam a Gogledd Iwrddon drwy negydu, dylem allu gwneud hynny yn y Dwyrain Canol a mannau eraill. Felly, boed i ni sefydiu Comisiwn newydd ar gyfer Datrys Gwrthdaro o dan nawdd y Cenhedloedd Unedig. Efallai y gellid gwahodd Mikhail Gorbachev i fod yn ben ar y fath Gomisiwn, corff wedi ei gyllido'n dda, a'r adnoddau angenrheidiol yn gweithio tuag at atebion heddychion i holl achosion presennol brawychiaeth. Dylai Comisiwn o'r fath fod yn gwbl ddiduedd ac ag awdurdod moesol fel y gall ennill parch pob plaid, er mwyn hyrwyddo cyfiawnder, cyfaddawd a thosturi ledled y byd. Dyna yw arweinyddiaeth adeiladol.

**Satish Kumar**

**Am sylwadau pellach ar y digwyddiadau trasig yn Efrog Newydd a Washington ymwelwch â gwefan Resurgence ar <www.resurgence.org>. Ailargraffwyd gyda chaniatâd cylchgrawn Resurgence, Ford House, Hartland, Bideford, Dyfnaint EX39 6EE. Am gopi rhad ac am ddim, ffoniwch Lynn Batten ar 01237 441293.**



# Cerwch i grafu, mae mwy o gosi i ddod


ffotograff: Ben Hill

Peth cwbl ffôl yw hawlio bod yn arweinydd clymblaid yn erbyn brawychiaeth tra'n dal i gymryd rhan mewn brawychiaeth. Er mwyn galw sylw at y ffolineb hwnnw ac i barhau â'n brwydr yn erbyn trais dilyffethair Trident, aethom, ar yr 22ain o Hydref, unwaith eto i ganolfan y llynges yn Faslane, cartref i un o bedair llong danfor taflegrau niwclear Trident Prydain. Cadwodd rhyw 1000 o bobl warchae ar y ganolfan am fore cyfan. Restiwyd 170 a chafodd pawb ond un eu rhyddhau yr un dydd neu ar ôl ymddangosiad ger bron llys ddydd Mawrth. Yn ngeiriau Tigger McGregor, roedd yn llwyddiant affwysol. Roedd llawer mwy o bobl ifanc yn y gwarchae yma ac roedd disgyblion ysgol ymhlith y rhai a gafodd eu restio. Daeth llawer am y tro cyntaf. Ym mhapur lleol Helensburgh, roedd adwaith y dudalen lythyron yn waeth nag arfer, efallai'n dynodi cydnabyddiaeth gynyddol fod y gwrthwynebiad i Trident yn tyfu ac yn gwbl o ddifrif. Gan ymateb i un gohebydd neilltuol o sarhaus oedd yn mynnu ymddiheuriad gennym, sgrifennais, 'Ydym, rydym yn ymddiheuro am yr 22ain. Mae'n ddrwg gennym mai dim ond 1000 ddaeth i'r ganolfan, ac mai am ddim ond pum neu chwe awr y gallasom rwystro gweithgareddau, na lwyddon ni i wneud yn well o ran hysbysu'r cyhoedd a'r cyfryngau o'r rheswm pam roeddem yn gwneud be roedden ni'n ei wneud. Mae'n ddrwg gennym nad ydym yn gwneud gwell defnydd o'r rhyddid cymharol sydd gennym ym Mhrydain i anufuddhau'n sifil, tra bod brodyr a chwiorydd ym mhedwar ban y byd yn wynebu artaith a marwolaeth pan feiddiant anghytuno. Mae'n ddrwg gennym hefyd fod rhaid i ni wneud hyn. Mewn byd gwirioneddol wareiddiedig, heb arfau niwclear, fyddai dim angen i ni wneud.' Aethom yn ôl i Faslane am dridiau o warchae o ddydd Llun 11eg Tachwedd.

## Llys: mwynhad i rai, tân ar groen eraill

Yn y ddeufis diwethaf, mae'r llysoedd wedi bod yn neilituol o brysur. Mae'r Gwarchae Mawr, gweithred Aidermaston, a llawer o weithredoedd eraill llai, fel protest Senedd yr Alban ym mis Ebrill, wedi achosi gorymdaith ddi-dor o weithredwyr yn ymddangos ger bron ynadon, ustusiaid a siryfion. Mae wedi bod yn fwynhad pur bod yn y llysoedd yn gysylltiedig â Faslane wrth i bobl y Gwarchae Mawr eu hamddiffyn eu hunain. Rhoddwyd dirwyon, rai ohonynt yn chwerthinllyd o uchel am brotest heddychlon o'r fath, ond nid dyna brif ganlyniad yr achlysuron hyn. Yr hyn sy'n aros yn y cof yw amrywiaeth anferth y lleisiau hyn, eu safbwyntiau a'u cefndiroedd, ynghyd ag unfrydedd aruthrol ynglyn â'r pynciau dan sylw, y rheidrwydd i fod ar flaen y gad, a phawb yn benderfynol o fynd yn ôl a gweithredu eto. Ac yma ac acw, un neu ddwy fuddugoliaeth gyfreithiol. Iona Gorringe a Tommy Sheridan (Yr ASA o Sosialydd Albanaidd) wedi eu cael yn ddieuog ar gyhuddiad Gwarchae Mawr oherwydd fod yr ynad, Tony Stirling, ymhen hir a hwyr wedi derbyn fod ganddynt hawl i brotestio. Ulla Roder (sydd yn dal o dan fygythiad cael eu danfon o'r DU) yn cael dedfryd ddieuog am weithred Senedd yr Alban yn mis Ebrill ar y sail y dylid caniatáu mesur o 'ryddid' yn achos protest ddiffuant. Ac mae'n amlwg ein bod wedi codi gwrychyn y Siryf Ronald Smith a ddywedodd, wrth ymdrin â Ludwig Appeltans a Harriet Jones: *'Rwyn eich ystyried chi broteswyr heddwch bondigrybwyll fel parasitiaid, sy'n achosi niwed di-ben-draw i ffensys, yn tarfu ar y ganolfan a gwastraffu arian y wlad y gellid ei wario ar bethau eraill.'* Y neges i'r Siryf Smith yw: ***'Cer i grafu, mae mwy o gosi i ddod.'***

## "Datgymalu peirianwaith braw"

Sawl gwaith yn y chwe wythnos diwethaf, pe baech wedi cymryd ei eiriau allan o'u cyd-destun, gallasech fod wedi meddwl fod Tony Blair wedi ymuno â mudiad Ploughshares. Yn gyntaf, soniodd am 'sancteiddrwydd bywyd dynol', yna dwedodd nad oedd byth gyfiawnhad dros ladd sifiliaid diniwed, ond y rhyfeddaf o'i eiriau oedd rhywbeth i'r perwyl fod rhaid i ni ddatgymalu, fesul darn, 'y peirianwaith braw yma'. Faint bynnag o dwyll yw siarad o'r fath, mae'n od iawn cael y cysyniadau hyn yn cael eu cyflwyno ger bron y cyhoedd i gyd gan ein harweinwyr pan fyddwn ni yn yr ymgyrch yn teimio mor aml fel lleisiau ymylol yn llefain yn yr anialwch pan fyddwn yn egluro yn y llysoedd neu ar y strydoedd neu gartref y cyfiawnhad dros ein gweithredoedd diarfogi. Mae'n hawdd anghofio bod ein hachos yn un sylfaenol a chyffredinol, y gall pawb ei ddeall.

**David Mackenzie**

## Ymgyrchwyr o Gymru ger bron llys

Cafodd Wendy Lewis o Gôr Cochion Caerdydd ei rhyddhau yn Llys Helensburgh ym mis Medi. Mae Helen Harris o Gastell-nedd wedi bod ger bron ymchwiliad modd am ddirwyon heb eu talu am wahanol weithredoedd yn mynd yn ôl i 1999 pan dorrodd i mewn i Faslane a chrwydro yno am dipyn. Mae wedi cael dedfryd o 28 diwrnod o garchar. Dwedodd Siryf yn yr Alban wrth Dave Rolstone o Sir Benfro, er cymaint y gallai fod yn cydymdeimio â'i safbwynt, fod rhaid iddo weithredu'r gyfraith fel yr oedd. Cafodd Dave yn euog, ond bodlonodd ar roi cerydd iddo.

heddweithredu! Cysylltwch â Trident Ploughshares ar 08454588366 (e-bost: tp2000@gn.apc.org) neu ffoniwch ein llinell Newyddion wedi ei recordio ar 08454588365. Gwefan: www.tridentploughshares.org

# Ers Medi'r 11eg - y rhagolygon ar gyfer 'Star Wars'

Newidiodd yr ymosodiadau ar Fedi'r l leg lawer o bethau yn y byd, yn cynnwys y ddadl am gynllun 'amddiffyn taflegrau' yr UD. Cyn yr ymosodiadau, roedd y Democratiaid yn yr UD yn bygwth arafu'r broses o weithredu 'Star Wars' drwy wrthwynebu cyllido'r system - ond yn awr, mae pob gwrthwynebiad wedi tewi a chymeradwywyd cyllideb amddiffyn yr UD yn ddiwrthwynebiad. Roedd pobi yn gweld effaith yr ymosodiad mewn dwy ffordd, gyda llawer yn credu ei fod yn cyfiawnhau eu honiad na fyddai system Amddiffyn Taflegrau Cenedlaethol yn amddiffyn yr UD a'i bod yn wastraff arian, ac eraill yn hawlio ei fod yn cyfiawnhau eu dadl hwythau fod UDA yn debyg o wynebu ymosodiad a bod arni 'angen'system Amddiffyn Taflegrau Cenediaethol. Bydd cynllun taflegrau'r UD yn torri'r Cytundeb Gwrth-Daflegrau Balistig (GDB) rhwng yr Undeb Sofietaidd ac UDA. Cyn Medi'r lleg, roedd Rwsia'n gwrthod trafod y gwelliant ond, ar ôl ymuno â'r 'Gynghrair Ryngwladol yn erbyn Brawychiaeth', mae wedi cychwyn negydu ynglyn â'r Cytundeb GDB ynghyd â chwtogi ar niferoedd arfau niwclear. Er bod y negydu'n ymddangos yn bositif, bydd y nifer o arfau niwclear sydd yn dal i fod yn yr UD yn fwy na digon i ddinistrio'r holl fyd. Mae'r gwaith wedi cychwyn ar ran o system 'amddiffyn' taflegrau'r UD yn Alaska. Mae llawer o wledydd Ewropeaidd wedi rhoi'r gorau i wrthwynebu ATC yn weithredol, ac ym Mhrydain mae argoelion na fydd y llywodraeth Brydeinig yn gwrthwynebu i'r UD ddefnyddio canolfannau ym Mhrydain ar gyfer 'Star Wars', er na fu unrhyw gais ffurfiol gan lywodraeth yr UD hyd yma. Fodd bynnag, mae llawer o ASau, mudiadau a chyrff rhyngwladol yn dal i wrthwynebu 'amddiffyn' taflegrau. Gwnewch yn siwr fod eich AS yn gwybod beth yw'ch barn ac yn deall yr oblygiadau i Brydain os cefnogwn y cynlluniau, oherwydd byddai'n gwneud Prydain yn darged trawiad-cyntaf mewn unrhyw wrthdaro rhwng llywodraeth yr UD a gwlad arall. Yr hyn sydd arnom ei angen yw diarfogi, niwclear, biolegol a chemegol llwyr. Does dim modd gwahaniaethu rhwng ATC a pheryglon lledaeniad arfau niwclear neu unrhyw arfau dinistr torfol. Felly, wrth i'r Cynadleddau Paratoi ar gyfer y Cytundeb Atal Lledaenu gychwyn eto ym mis Ebrill 2002, rhaid i ni ddwyn pwysau ar ein llywodraeth ac argyhoeddi pobloedd Prydain mai'r unig fodd y gellir sicrhau diogelwch yw mewn byd heb arfau dinistr torfol a heb 'Star Wars'.

***"Bydd bydehangu'r economi fyd-eang yn parhau gyda'r bwlch yn cynyddu rhwng y rhai sydd â digon a'r rhai sydd heb ddim. Drwy reoli'r gofod a'r ddaear is law, bydd UDA yn gallu cadw'r rheini sydd heb ddim yn eu lle."***
**Dogfen Rheolaeth Gofod yr UD "Vision for 2020"**

**Mae gwir ddiogelwch yn deillio o ryddid rhag bygythiadau a chydnabod hawliau dynol pob enaid byw.**

heddweithredu!

**Rachel Julian CND Swydd Efrog**

**Am fwy o wybodaeth, mynnwch gopi o 'UK and Star Wars'gan CND Swydd Efrog (£1 yn cynnwys cludiant) neu wybodaeth o'n gwefannau: www.yorkshirecnd.org.uk a www.space4peace.org**

# Gwreiddiau brawychiaeth

Fel Mwslemiaid, rydym yn condemnio'n gryf yr ymosodiad gan frawychwyr ar ddwy ddinas fawr Unol Daleithau America ar Fedi'r 11eg 2001 a laddodd ac a anafodd filoedd o bobl ddiniwed, ac yn cynnig ein cydymdeimiad i bobl America. Aeth yr ymosodiadau hyn â mater pwysig iawn yn gysylltiedig â gwir ffynhonnell brawychiaeth i frig agenda'r byd. Drwy gyfrwng hynny, cyhoeddwyd i'r holl fyd fod Islam yn grefydd sy'n credu mewn heddwch a goddefgarwch, a'i bod yn galw ar bobl i ddod at dosturi a chyfiawnder. Dywedodd llawer o arweinwyr y byd, y cyfryngau blaenllaw, gorsafoedd teledu a radio wrth eu pobl eu hunain fod gwir Islam yn gwahardd trais, ac yn gorchymyn heddwch rhwng pobloedd a chenhedloedd. Nododd y cylchoedd Gorllewinol sydd wedi dod i ddeall Islam yn llawn ac sy'n wybodus ynghylch y gwir Islam a orchmynwyd gan Dduw yn y Koran na all geiriau Islam a brawychiaeth sefyll ochr yn ochr, ac nad yw crefydd ddwyfol yn caniatáu trais o fath yn y byd.

Fel y gwyddoch, ers canrifoedd mae gwahanol weithredoedd brawychol wedi cael eu cyflawni mewn gwahanol rannau o'r byd gan wahanol grwpiau i wahanol ddibenion. Weithiau bydd mudiad comiwnyddol, weithiau grwp ffasgaidd, a weithiau carfannau o radicaliaid neu ymwahanwyr yn derbyn cyfrifoldeb am y gweithredoedd hyn. Mae UDA ac Ewrop yn dargedau i ymosodiadau gan grwpiau o frawychwyr hiliol ac ymylol eraill. Mae brawychiaeth yn newid wrth i amodau byd-eang ddatblygu a newid, ac mae ei effaith a'i nerth yn cynyddu gyda'r moddau newydd sydd ar gael drwy ddatblygiad technoleg.

Rhaid nodi, hyd yn oed os mai Mwslemiaid oedd y brawychwyr, na allir galw eu gweithred yn 'frawychiaeth Islamaidd' ddim mwy nag y byddai'n cael ei galw'n 'frawychiaeth Iddewig' pe bai Iddewon yn gyfrifol, neu 'frawychiaeth Gristnogol' pe baent yn Gristnogion.


Mae crefydd yn gorchymyn cariad, trugaredd a heddwch. Mae brawychiaeth, ar y llaw arall, yn gwbi groes i grefydd: mae'n greulon, yn ddigrugaredd, ac yn mynnu tywallt gwaed a pheri gofid. Am y rheswm hwnnw, mae brawychiaeth Islamaidd', 'brawychiaeth Iddewig' neu 'frawychiaeth Gristnogol' yn gamgysyniadau llwyr, oherwydd ni all crefydd Islam neu grefyddau eraill byth gytuno â brawychiaeth. I'w gwrthwyneb, mae 'braw' (h.y. llofruddio pobl ddiniwed) yn bechod mawr mewn Islam ac mae Mwslemiaid yn gyfrifol am atal gweithredoedd o'r fath a dod â heddwch a chyfiawnder i'r byd.

**Harun Yahya**

## Ymgyrch Byncar Pen-y-bont ar Ogwr 1981

# Gallwn ennill! Gwersi'r 'rhyfel oer'...

Ym 1981 chwaraeodd y mudiad heddwch yng Nghymru ran bwysig mewn datgelu gweithgareddau'r rhai oedd yn cynllunio ar gyfer rhyfel yn ystod y 'rhyfel oer' bondigrybwyll. Dyna'r flwyddyn y sefydlodd menywod o Gymru'r gwersyll heddwch hir-hoedlog yn erbyn taflegrau niwclear cruise yng Nghomin Greenham. Mae llawer o'r menywod hynny yn dal i fod yn weithgar; mae'r comin bellach yn warchodfa natur. Nid yw rhoi'r gorau i frwydro dros heddwch, cyfiawnder a diarfogi yn ddewis.




### Cwn dros heddwch

Nid dim ond arfau sy wedi bod yn destun ymgyrchoedd llwyddiannus, a gall ymgyrchwyr heddwch gael help gan eu cyfeillion pedair coes. Helpodd dyn oedd yn mynd a'i gi am dro ym Mhen-y-bont ar Ogwr ym 1981 i ddatgelu'r gwirionedd am bencadlys rhyfel oer cyfrinachol anferth y llywodraeth Brydeinig yng Nghymru, mewn byncar o dan Fryn Brackla (sef safle ffatri arfau adeg-rhyfel oedd ar yr un adeg yn cyflogi mwy na 30,000 o bobl). Y bwriad oedd y byddai'r byncar yn cael ei ddefnyddio yn ystod ymosodiad niwclear a wedi hynny. Er gwaethaf y gwadu swyddogol arferol, profodd 'synhwyro'o gwmpas y lle gan bobl ac anifeiliaid fod Brackla yn system anferth o dwneli tanddaearol yn llawn offer a chyfarpar ar gyfer rhyfel niwclear.

Roedd y Swyddfa Gartref wedi cael ei chornelu, a cheisiodd gadw'r holl beth yn dawel, er iddi gydaddef na châi'r boblogaeth sifil fynediad i'r byncar, ac y byddai'r holl le dan reolaeth gaeth yr heddlu a'r fyddin. Y tu ôl i byrth blast anferth y byncar, roedd 'dinas' gan y cynllunwyr rhyfel ar gyfer Llywodraeth Adeg Rhyfel, ynghyd â'i stiwdio ddarlledu ei hun, yn barod pe câi arfau niwclear eu tanio. Cysylltodd grwp bychan ond penderfynol o weithredwyr lleol â'r newyddiadurwr ymgyrchol Duncan Campbell ac, er gwaethaf bygythiadau gan yr awdurdodau, cyhoeddwyd y ffeithiau am y safle (Simpson a Llewellyn, 1981, H-Bomb on Ogwr). Enynnodd hyn ymgyrch gyhoeddus anferth gyda ffeithiau'n cael eu datgelu yn y wasg Gymreig, Brydeinig a lleol am safle Brackla ac oblygiadau hynny.

### Protest y bobl yn trechu

Daeth cynlluniau i glawr hefyd ar gyfer adeiladu 'uwch-fyncar'ar gyfer Cyngor Sir Morgannwg Ganol ar stâd ddiwydiannol gyfagos. Ychydig iawn o gynghorwyr wyddai ddim am y cynlluniau. Unwaith eto, gwadwyd fod dim byd yn digwydd. Protestiodd grwpiau gwrth-niwclear o bob rhan o Forgannwg a Chymru; daeth undebwyr llafur, athrawon, nyrsys a cynorthwyr catrtref ynghyd mewn gwersyll heddwch a barodd 50 diwrnod gyda 600 o bobl. Ar Fawrth 8fed 1982, ychydig ddiwrnodau wedi i Gymru ddatgan am y tro cyntaf ei bod yn 'wlad ddi-niwclear', llwyddodd 20 o brotestwyr i atal concrid ar gyfer waliau blast rhag cael ei arllwys, drwy weithredu uniongyrch, a chafod hyn sylw mawr yn y cyfryngau.

Roedd canlyniadau'r ymgyrch amddiffyn sifil hon yn deyrnged i nerth protest pobl. Cyfaddefodd cynghorwyr yn ddiweddarach eu bod wedi cael eu boddi gan gwynion, ddydd a nos. Ar Fawrth 15fed 1982, wythnos wedi'r weithred uniongyrchol a'r wythnos y cyflwynwyd datganiad y Gymru Ddi-niwclear i'r Senedd Ewropeaidd, dileodd y cynghorwyr y cynlluniau ar gyfer byncar. Mae'n ymddangos fod cannoedd o filoedd o bunnau wedi ei wastraffu ar 'amddiffyn sifil' bondigrybwyll yn un o barthau tlotaf Cymru, arian y gellid fod wedi ei ddefnyddio i gyflogi 500 o staff gofal cartref ychwanegol. Arwyddodd Cyngor Sir Morgannwg Ganol Ddatganiad y Gymru Ddi-niwclear. Ysbrydolodd yr ymgyrch eraill yng Nghymru a rhoi arweiniad ar sut i ddatgelu byncars a pharatoadau sifil at ryfel niwclear, yn enwedig yng Nghaerfyrddin ym 1985- 6.

### Gwersi

Erbyn heddiw mae Greenham, Caerwent a safleoedd y byncars yn dirwedd heddychlon. Dwi'n dal i gredu mai un o wersi ymgyrchoedd fel y rhain yw eu gallu i gynyddu 'ymwybyddiaeth o arfau niwclear a pharatoadau rhyfel, yn enwedig y gwastraff adnoddau ofnadwy a'r cyfyngu ar ein rhyddid' (Minnion a Bolsover The CND Story 1983). Gwnaeth yr ymgyrchoedd hyn ac eraill lawer iawn i adfer hyder pobl yn eu gallu i weithredu dros heddwch a chyfiawnder. Dwedodd Jean Bryant o'r Rhondda, sy'n dal yn weithgar yn y mudiad gwrth-ryfel presennol: *'Cawsom nad cyfrifoldeb eraill oedd hyn, ond ein cyfrifoldeb ni. Roedd yn fuddugoliaeth drosom ni a'n hamheuon nad oedd modd gwneud dim ... Dyma seinio ein hytgyrn a daeth y waliau'n syrthio i'r llawr. Nawr, rhaid i ni adeiladu ar gyfer y dyfodol'* (Simpson, No Bunkers Here, 1982).

### A ydy hanes yn ei ailadrodd ei hun?

Er bod ymgyrchwyr heddwch yn gresynu'n fawr ar beth ddigwyddodd ar Fedi'r 11eg, y cwbl mae'r 'rhyfel ar frawychiaeth' yn ei wneud yw cymryd lle'r 'ryfel oer'oedd yn bodoli ei hun ochr yn ochr â rhyfeloedd cudd (Chile, Panama, Colombia) a 'rhyfeloedd poeth' sy'n dal i fynd yn eu blaen mewn mannau eraill. Wrth i sifiliaid farw yn Afghanistan, mae'r Ysgrifennydd Cartref David Blunkett yn mynd yn syth o'r Cabinet Rhyfel i fyncar yn Whitehall lle mae ei 'Bwyllgor Hapddigwyddiadau Sifil' yn cyfarfod i lunio cynlluniau amddiffyn sifil newydd i'w gorfodi ar awdurdodau lleol. Diben y cynlluniau hyn, mae'n debyg, yw ymladd (nid atal) brawychiaeth niwclear, cemegol a biolegol. Ein dyletswydd ni yw cadw llygad barcud ar y cynlluniau hyn.

Wrth i ni baratoi i ddathlu Ugain Mlwyddiant y Gymru Ddi-niwclear, gadewch i ni gofio'n cryfderau, ein llwyddiannau, a'r hyn a ddywedsom ym 1982: *'mae heddwch a democratiaeth yn anwahanadwy'*.

**Tony Simpson**

## Fforwm Ddi-niwclear Cymru

Mae Fforwm Ddi-niwclear Cymru wedi cael cefnogaeth gref gan awdurdodau lleol Cymru er ei sefydlu fwy nag 16 o flynyddoedd yn ôl. Y Fforwm yw sefydliad yr awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n sylweddoli fod prosesau niwclear sifil a milwrol a materion tramor yn peryglu diogelwch y cyhoedd a'r amgylchedd, gydag effeithiau posibl ar yr economi a swyddi. Mae defnyddwyr ac awdurdodau lleol eisoes yn talu am waddol ymbelydrol y diwydiant niwclear. Mae'r Fforwm yn darparu gwybodaeth ar faterion sy'n effeithio ar awdurdodau lleol a gwybodaeth arbenigol a chyfreithiol ar faterion niwclear o safbwynt eu heffaith ar lywodraeth leol. Mae'n cynnig un llwyfan unedig lle gall aelodau o gynghorau siarad ar ran eu cymunedau ar ddatblygiadau cenedlaethol a rhyngwladol. Dim ond 15 aelod sydd gan Fforwm Ddi-niwclear Cymru yn awr o gyfanswm posibi o 22. Y cynghorau sydd heb ymuno yw Wrecsam, Conwy, Powys, Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Trefynwy a Bro Morgannwg.

Os ydych yn byw yn un o'r ardaloedd hynny, cysylltwch â Tony Simpson (01656) 721441 i gael gwybod sut mae CND Pen-y-bont ar Ogwr yn ymgyrchu i ddarbwyllo Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i ailymuno â'r Fforwm. Gellir cysylltu â'r Fforwm drwy'r Ysgrifennydd, Keith Davies, Adran Gynllunio Brys, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Pentre CF41 7XW (01443) 432 999 ebost: keith.davies@rhondda-cynon-taff.gov.uk

# Ynni newydd yn yr Alban : adnewyddadwy neu niwclear?

**Mae British Nuclear Fuels (BNFL) wedi dweud eu bod yn ystyried adeiladu adweithyddion niwclear newydd ar safleoedd presennol adweithyddion niwclear Magnox. Gallwn fod yn weddol sicr na fyddai hyn yn cynnwys Trawsfynydd ond nid oes unrhyw sicrwydd na fydd adweithydd newydd yn Wylfa. Mae'r un peth yn wir am safleoedd niwclear yn Oldbury a Berkeley (Swydd Gaerloyw), yn ogystal â Hinkley Point (Gwlad yr Haf). Aeth bron bymtheg mlynedd heibio ers i Gymru gael ei llygru gan ddamwain niwclear Chernobyl, 1,500 o filltiroedd i ffwrdd. Roedd hynny'n rhybudd nad yw ffiniau ar fap yn diogelu rhag effeithiau ymbelydredd sy'n gollwng, cael gwared o wastraff niwclear a chludo defnyddiau niwclear. Mae hon yn ddadl o bwys hanfodol i'r Cynulliad Cenedlaethol sydd yn arddel delfryd sylfaenol o 'Gymru Gynaliadwy'. Mae'n bryd i ni atgyfodi ein statws Ddi-niwclear, sydd mor werthfawr yn awr â phan sefydlwyd e gyntaf bron ugain mlynedd yn ôl.**

YNNI NIWCLIAR? DIM DIOLCH

wise

**Mae Pete Roche o Greenpeace yn sgrifennu am y ddadl angerddol sydd yn mynd yn ei blaen am y mater yn yr Alban:**

Prin y gall pobl mewn cylchoedd gwrth-niwclear gredu o hyd fod adeiladu adweithyddion niwclear newydd hyd yn oed yn cael ei ystyried. Mae consensws gwrth-niwclear cryf yn bod ymhlith cenhedlaeth o wleidyddion a brotestiodd yn erbyn Trident a'r gweithfeydd niwclear yn Dounreay a Torness. Pan darfodd protestwyr gwrth-niwclear ar sesiwn gwestiynau'r Prif Weinidog yn Senedd yr Alban eleni, cafodd sawl ASA eu ceryddu am gymeradwyo'r gwrthdystwyr. Disgrifiwyd Torness yn East Lothian gan Swyddfa'r Alban fel 'camgymeriad £2.5 biliwn'.

Cyn i BNFL a British Energy (BE) alw am 'ddadl gyhoeddus' ar ddiwedd y llynedd, adroddodd yr Herald on Sunday [5ed Tach 2000] fod gweision sifil yn yr Alban yn pwyso am ystyried adeiladu newydd, a dwedodd Pennaeth Gwyddoniaeth Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban na ddylid diystyru pwer niwclear fel ateb i broblem newid hinsawdd.

Cwynai erthygl Olygyddol yr Herald 'hyd oni fydd y broblem [gwastraff niwclear] wedi cael ei datrys yn iawn, does bosib nad yw hi'n gynamserol cyflwyno cynlluniau ar gyfer adeiladu mwy.' Mae gan yr Alban y gallu i adeiladu diwydiant cynhyrchu offer adnewyddadwy newydd, ac arwain y byd mewn pwer tonnau. Gallai dechrau adeiladu gorsafoedd niwclear newydd nawr atal y diwydiant newydd yma rhag datblygu.

Yn y cyfnod cyn yr Etholiad Cyffredinol, roedd y Democratiaid Rhyddfrydol a Phlaid Genedlaethol yr Alban yn gwrthwynebu unrhyw datblygiadau niwclear newydd. Dywedodd Llafur nad oedd unrhyw gynlluniau i gynyddu gallu pwer niwclear Prydain, ond nid oedd yn fodion disystyru adeiladu gorsafoedd newydd i gymryd lle hen rai. Cynhaliodd y blaid Lafur Arolwg Ynni ar ôl yr etholiad. Yn y Scotsman ar y 3ydd o Fedi 2001, adroddwyd fod y mwyafrif o weinidogion ar bwyllgor arolwg ynni Whitehall (yn cynnwys Gweinidog Swyddfa'r Alban a chyn-wrthwynebydd ynni niwclear, George Foulkes AS) o blaid mwy o orsafoedd ynni niwclear. Fodd bynnag, mae gan lywodraeth yr Alban yr hawl i atal ehangu niwclear am resymau cynllunio.

Ysgrifennodd Iain Macwhirter, un o brif sylwebyddion gwleidyddol yr Alban, yn ddiweddar yn y Glasgow Herald: *'Ymddengys fod yr Alban i fod i chwarae rhan flaenllaw yn y broses o adfer hygrededd y tanwydd ddaeth â ... Chernobyl a chlystyrau lewcemia i chi. Dydyn ni ddim agosach at ddull boddhaol o ymdrin â gwastraff niwclear nag oedden ni ym 1976 pan rybuddiodd Adroddiad Flowers yn erbyn unrhyw ehangu yn y diwydiant niwclear cyn datrys problem y gwastraff. Yr unig fodd y gellid gwneud pwer niwclear yn broffidiol fyddai pe bai'r llywodraeth yn gwarantu'r risg ariannol [a] chytuno i dalu costau cael gwared o wastraff a dadgomisiynu... Mae Senedd yr Alban wedi cael ei rhybuddio i beidio ag ymhel â'r dyfodol niwclear... mae ynni niwclear yn fater wedi ei neilltuo i San Steffan ... ond bydd yn anodd i Senedd yr Alban dewi ar y cwestiwn amgylcheddol mwyaf, gellid dadlau, sy'n wynebu'r Alban. Mae cynllunio a'r amgylchedd, p'run bynnag, wedi eu datganoli. Mae'r mwyafrif o ASAau bron yn sicr yn gwrthwynebu'r dewis niwclear ... dwi'n amau fod yr Alban niwclear ar fin mynd yn gritigol eto.'*

Ar y 13eg o Fedi, mewn ymateb i Arolwg Ynni'r DU, pwysleisiodd llywodraeth yr Alban bwysigrwydd defnyddio ynni'n effeithion a phosibiliadau anferth ffynonellau ynni adnewyddadwy. Felly yn awr, mae'r Alban yn disgwyl canlyniadau'r Arolwg Ynni. Ond mae'n amlwg na chaiff unrhyw orsafoedd niwclear newydd lwybr esmwyth.

# Y Diweddaraf ar Ymgyrchu

## Gorleben - y wladwriaeth yn cefnogi defnyddio ynni niwclear

Ym mis Tachwedd, bu miloedd o ffermwyr, trigolion lleol, gweithredwyr amgylcheddol ac eraill yn cadw gwarchae ar ffyrdd a rheilffyrdd yn rhanbarth Wendland, gogledd yr Almaen, wrth i lwyth arall o wastraff niwclear gael ei gludo o La Hague i'r stordy niwclear yn Gorleben. Ymosododd yr heddlu yn dreisgar ar brotestwyr er mwyn gorfodi'r llwyth drwodd yn erbyn gwrthwynebiad mawr. Am rai dyddiau, gwelwyd llu o weithredoedd ar draws yr holl ranbarth, yn cynnwys gwarchae tractoriaid ar reilffyrdd a ffyrdd yn arwain at y safle gwastraff niwclear, protestiadau eistedd, gwylnosau, gwrthdystiadau byrfyfyr a gweithredoedd dringo coed. Wrth i un gwarchae gael ei symud gan yr heddlu, byddai sawl un arall yn ymffurfio mewn mannau eraill.

Fe'i gwnaed hi'n glir gan y protestwyr nad dim ond cadw gwastraff niwclear allan o'r Wendland oedd eu bwriad, ond hefyd rhoi terfyn ar ddefnyddio ynni niwclear ar unwaith a gwrthwynebu cefnogaeth y wladwriaeth i'w ddefnydd drwy ddulliau treisgar. Cafod dwsinau o brotestwyr eu hanafu mewn cyrchoedd heddlu treisgar ar brotestiadau eistedd; bu o leiaf bump o'r protestwyr mewn cyflwr difrifol am gyfnod. Dioddefodd gweithredwyr a thrigolion lleol reolaeth fympwyol, pobl yn cael eu restio, a thir preifat yn cael ei feddiannu'n anghyfreithion gan heddlu. Cafodd sawl llond bws o brotestwyr eu restio wrth iddyn nhw gyrraedd yr ardal.

## Mudiad '*Tai nid Bomiau*' yn Cau Canolfan Rhyfel y Gofod

Mewn gweithred uniongyrchol ddi-drais gan *'Homes not Bombs'* yng Nghanada, cafodd dau unigolyn eu restio a'u cyhuddo o dresmasu am geisio mynd i mewn i Sefydliad Ymchwil 'Amddiffyn' Ottawa (SYAO), canolfan 'rhyfel y gofod'. Aeth 50 o brotestwyr â ffurflenni arolygu dinasyddion ac Addewid Cydwybod i Roi Terfyn ar Waith dros Ryfel yno, yn erbyn llu anferth o heddlu terfysg, ymladdwyr tanau, dynion a menywod camera yr heddlu, cwn heddlu ac awyren heddlu. Llwyddodd presenoldeb y protestwyr i atal gwaith rhyfel y gofod yn SYAO am ddiwrnod cyfan. Daeth bws heddwch â Llew, y Bwgan Brain a Dorothy (o Wlad Oz) a chyfres o 'dditectifs'a gwyddonwyr mewn cotiau gwynion i'r gwrthdystiad. Yna, cymerodd *'Homes not Bombs'* ran mewn drama ffarsaidd, a ddrysodd yr heddlu yn llwyr.

Credir mai'r gwrthdystiad cyntaf hwn erioed yn SYAO oedd y tro cyntaf i Ganadiaid geisio cyflawni gweithred uniongyrchol yn un o'r pum sefydiiad ymchwil rhyfel y gofod sy'n derbyn cyllid ffederal. Dywedodd y trefnwyr eu bod wedi cael y gwrthdystiad a'r ymgyrch hysbysrwydd yn ddiddorol, gan eu bod ill dau yn tanlinellu i'r fath raddau mae Canadiaid yn hoffi glynu wrth y myth o Ganada fel cenedi ddiniwed a heddychlon. Mae'n well gan y cyfryngau yng Nghanada ganolbwyntio ar yr 'UD Fawr Ddrwg', gan anghofio yn gyfleus gymaint mwy anodd fyddai hi i'r UD fod yn fawr ac yn ddrwg heb ddiwydiant rhyfel $5 biliwn y flwyddyn Canada a chyfarpar diogelwch y wladwriaeth.

Meddai'r ymgyrchwyr: *Cafodd 'trefn' a 'pharchusrwydd' ymchwil dawel, a anwybyddir, i ryfel yn y gofod eu chwalu am ddiwrnod cyfan yn SYAO ar Dachwedd 9; bydd yn cael ei chwalu eto yn yr achos llys, ac yn parhau i gael ei chwalu'.*

**Mwy o wybodaeth, negeseuon o gefnogaeth: *Homes not Bombs*, PO Box 73620, 509 St. Clair Avenue West, Toronto, Ontario M6C 1C0 Canada (416) 651-5800, tasc@-web.ca**

## Cofio Hiroshima a Nagasaki

Cafodd dioddefwyr y defnydd bwriadol cyntaf erioed o arfau niwclear eu coffáu mewn digwyddiadau ym mhedwar ban y byd a ledled Cymru ar y 6ed Awst (Hiroshima) a'r 9fed Awst (Nagasaki). Cynhaliodd CND Abertawe achlysur coffa ym Mharc Singleton, gyda barddoniaeth a phlannu coed, a phlanwyd coeden yn Llandrindod hefyd. Cynhaliwyd digwyddiadau hefyd yn Nhrefdraeth, Dinbych, Casnewydd a Chaerdydd.

## Rolls Royce calongaled

Mae wraniwm wedi ei gyfoethogi, carbon 14 a cobalt 60, gwastraff o waith cynhyrchu creiddiau adweithyddion llongau tanfor niwclear Rolls Royce yn Derby wedi bod yn cael eu claddu mewn chwarel heb ei hatgyfnerthu mewn bryniau cyfagos dros gyfnod o fwy na 40 mlynedd. Roedd y deunydd yn cael ei gladdu mewn dwy fetr o dywod yn y chwarel, sydd ar fryn ddim ond 50 metr o ysgol gynradd a chartrefi. Mae pobl leol wedi sefydlu 'Crich and District Environmental Group' i wrthwynebu ceisiadau am ailawdurdodi trwyddedau ar gyfer y safle hwn. Mae aelodau'r grwp, sy'n cael eu disgrifio fel 'pobl heddychlon sy'n parchu'r gyfraith fel rheol', ynghyd ag ymgyrchwyr eraill wedi cynnal cyfarfodydd cyhoeddus, wedi casglu enwau ar ddeisebau a'u cyflwyno, ac wedi trefnu taith gerdded 11 militir ar hyd nentydd yr effeithiwyd arnynt yr holl ffordd i Derby. Daethpwyd o hyd i Cobalt 60, Thoriwm 232 ac Wraniwm 235 yn y nentydd lleol. Mae ymgyrchwyr wedi bod â gwarchae ar y safle ers mis Gorffennaf ac mae rhai wedi cael eu restio. Bydd yr ymgyrch yn parhau i weithio i atal pob tipio nawr. Maent yn bwriadu parhau i wneud pobl yn fwy ymwybodol o beryglon y safle, i gadw piced yno, i bwyso ar Asiantaeth yr Amgylchedd gan alw arnynt i warantu diogelwch y safle, a dwyn pwysau ar wleidyddion i greu ddeddfau i sicrhau fod rhaid i gwmnïau fabwysiadu'r arfer gorau wrth gael gwared o wastraff niwclear.

Dwedodd un o'r ymgyrchwyr, David Lane:
*"Nid 'nimbyism' mo hyn; mae'r broblem eisoes yn ein hiard gefn yn llythrennol. Rydym yn mynnu na ddylem ni, a chymunedau eraill tebyg, orfod byw gyda'r ofn sy'n anorfod yn sgîl gwastraff ymbelydrol."*

**Cysyllter â: David Lane, Crich and District Environmental Group, 01773 853 260 ebost: davidmtlane@hotmail**

## Bad Aibling, partner sbio Menwith Hill

Roedd y ganolfan UD hon yn yr Almaen i fod i gau y flwyddyn nesaf, gyda'i gwaith yn cael ei drosglwyddo i Brydain, fel 'arwydd o ewyllys da' i lywodraeth yr Almaen. Roedd hynny'n ymateb i ymchwiliad damniol y Senedd Ewropeaidd i'r system sbïo Echelon. Cafodd yr astudiaeth hon fod rhyng-gipio cyfathrebu yn tramgwyddo Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (Yr Hawl i Breifatrwydd) sydd bellach yn rhan o Ddeddf Hawliau Dynol Prydain. Fodd bynnag, gohiriwyd y cau am ddwy flynedd yn sgîl cais gan y Pentagon, gan eu bod yn credu fod angen y ganolfan ar gyfer y'Rhyfel ar Frawychiaeth'.

Mae'n siwr felly na fydd unrhyw ymyrraeth â'r sbïo economaidd cyson sydd o gymaint o fantais i fuddiannau cyfalafol UDA (ac yn niweidiol i les pobl eraill).

Mae Helen John o Ymgyrch Womenwith Hill, wedi siarad ag ASau cefnogol yn y gobaith o gychwyn ymgyrch i atal trosglwyddo gwaith Bad Aibling i Brydain. Mae nifer o gwestiynau'n deillio o'r sefyllfa yma: pam ddylai'r llywodraeth Brydeinig ganiatáu i NSA dorri'n deddfau ni yn agored? A allem ystyried sbïwyr NSA Bad Aibling yn 'geiswyr nodded'a gwrthod mynediad iddynt? Mae eu presenoldeb yn sicr yn gwneud y DU yn lle llai diogel i fyw ynddo.

## Heddlu arfog Gogledd Swydd Efrog ar Menwith Hill

Gofynnir i unrhywun sy'n parcio yng nghyffiniau Menwith Hill i brofi pwy ydyn nhw a chyfiawnhau eu presenoldeb. Gwnaeth ASau lleol gais i'r Swyddfa Gartref am £l miliwn i dalu am y wyliadwraeth hon ar ddiwedd y flwyddyn. Gan bardduo'r mudiad heddwch mewn modd cwbl annerbyniol, dywedodd yr Ysgrifennydd Cartref: 'Mae gan bawb hawl i brotestio, ond mae pris i'w dalu'. Mae ymgyrchwyr wedi ysgrifennu at David Blunkett i gwyno.

Ers gweithred Greenpeace yn Menwith ym mis Gorffennaf, mae'r gwersyll wedi cyflwyno dau gais cynllunio arall ar gyfer 'cynyddu diogelwch'. Yn awr, mae arnynt angen tri chaban arall, sef cyfanswm o bump, yn ogystal â ffens ddiogelwch arall o gwmpas y peli golff 'Star Wars'. Hysbysebwyd y cynlluniau a gwahoddwyd y cyhoedd i ymateb. Aeth Flossie Mintballs a'i ffrind o Wersyll Heddwch Womenwith Hill i'r Swyddfa Gynllunio i archwilio'r cynlluniau, a chawsant nad yw'r cynlluniau hynny'n cynnwys hyd yn oed wybodaeth am faintioli, lleoliad neu ymddangosiad. Dwedodd y Swyddog Cynllunio mai dyna'r unig wybodaeth roedd 'angen iddyn nhw ei wybod'.

*heddweithredu!*

**Diolch i weithgareddau codi arian a chyfraniadau, mae'r cerbyd mawr, coch, chwyldroadol 'Doris' yn awr yn nwylo diogel menywod Menwith. Yn anffodus, mae prynu Doris wedi gwagio coffrau Gwersyll Heddwch Womenwith. Croeso i gyfraniadau i'r gwersyll heddwch bob amser. Cysyllter â: Womenwith Hill Women's Peace Camp(aign), P.O.Box 105, Harrogate HG3 2FE.**

# Newyddion Diweddaraf

## Chaiff pobl Diego Garcia ddim dychwelyd adref

Mae protestwyr wedi ymgynnull y tu allan i'r Uwch Gomisiwn Prydeinig ar Mauritius yn mynnu'r hawl i ddychwelyd adref. Ffoaduriaid yw'r bobl hyn (Ilois) o Ynysoedd Chagos, sy'n cynnwys ynys Diego Garcia. Cawsant eu symud o'u cartrefi gan y llywodraeth Brydeinig yn y 1960au ac mae eu gwlad bellach yn ganolfan UD tra-diogel a ddefnyddir i lansio yr awyrennau B52 sydd wrthi'n carped-fomio Afghanistan.

Flwyddyn yn ôl, dyfarnodd yr Uchel Lys yn Llundain fod y llywodraeth Brydeinig wedi gweithredu yn anghyfreithion yn erbyn trigolion Diego Garcia. Er y dyfarniad hwnnw, does dim byd wedi newid i'r ffoaduriaid sy'n byw, lawer ohonynt, mewn tlodi mawr. Mae'r Swyddfa Dramor Brydeinig yn dweud ei bod wrthi'n archwilio'r posibiirwydd o alluogi'r ffoaduriaid i ddychwelyd adref, ond mae'n gwrthod gosod terfyn amser. Ymddengys mai'r unig beth sydd o ddiddordeb i'r UD a Phrydain yw eu nodau strategol eu hunain, nid gwir gyfiawnder.

**Mae angen arian ar fyrder ar gyfer yr ymgyrch i sicrhau fod y llywodraeth Brydeinig yn cyflawni ei hymrwymiadau, ac i roi cefnogaeth ymarferol i'r Ilois. Mwy o wybodaeth a manylion am ymuno â Chymdeithas Cefnogi Chagos y DU gan Sylvia Boyes, 43 Wimborne Drive, Keighley, Bradford BD21 2TR (01274) 824 271**

*heddweithredu!*

## 'Ffatri fomiau' MOX Sellafield yn gwbl gyfreithlon

Mae Barnwr yn yr Uchel Lys wedi dyfarnu fod penderfyniad diweddar y llywodraeth i roi caniatad i British Nuclear Fuels Ltd (BNFL) i fwrw ymlaen â'r gwaith MOX yn Sellafield yn gwbl gyfreithion o dan gyfraith Ewropeaidd. Roedd Cyfeillion y Ddaear a Greenpeace wedi dadlau'r achos fod y llywodraeth, ar gam, wedi diystyru'r £470 miliwn a gostiodd i adeiladu'r gwaith wrth benderfynu fod cyfiawnhad economaidd dros y gwaith o dan gyfraith y GE. Mewn dyfarniad dadleuol, dywedodd y Barnwr Collins na ddylid pwyso costau sefydlu gwaith niwclear newydd wrth gloriannu costau a buddiannau economaidd tra'n penderfynu a oedd cyfiawnhad economaidd dros unrhyw waith niwciear. Mae'r gwaith MOX dadleuol yn dal i fod yn destun tair her gyfreithiol arall; mae llywodraeth Iwerddon yn dwyn dau achos gan ddadlau yn un ohonynt y bydd y gwaith MOX yn torri'r gyfraith ryngwladol ar lygru'r môr; cafodd trydydd achos ei ddwyn gan yr ASE Gwyddelig, Nuala Ahern. Dywedir fod Norwy hithau'n ystyried dwyn achos cyfreithiol.

Mae Greenpeace a Chyfeillion y Ddaear hefyd yn credu y bydd y gwaith MOX, sy'n bwriadu gwneud tanwydd adweithyddion niwclear o blwtoniwm ac wraniwm i'w allforio i bedwar ban y byd, yn ei gwneud hi'n fwy posibi y gallai brawychwyr gipio deunydd niwclear, ac yn ei gwneud yn fwy tebygol y gallai Sellafield ei hun fod yn darged i frawychwyr. Plwtoniwm yw un o'r defnyddiau mwyaf peryglus yn y byd. Gellid gwneud bom niwclear gyda cyn lleied â

*troi dros*

4kg ohono. Mae angen llawer llai i wneud 'bom budr' (ffrwydron confensiynol gyda'r plwtoniwm fel ei fod yn llygru yn eang wrth ffrwydro).

Dywedodd ymgyrchwyr: *"Er gwaetha'r ergyd dost yma, mae'r ymgyrch yn erbyn MOX yn parhau. Rhaid i ni er ein mwyn ein hunain a chenedlaethau i ddod wneud hynny a allwn i atal y gwallgofrwydd niwclear hwn rhag mynd yn ei flaen ... Roedd Tony Blair yn iawn pan alwodd sylw at fygythiad brawychiaeth ryngwladol a lledaeniad niwclear yn ei araith i Gynhadledd y Blaid Lafur. Mae'n bryd i'w weithredoedd gyfateb i'w eiriau, ac i'w Lywodraeth beidio â chaniatáu gweithgareddau a fydd yn arfogi brawychwyr yfory."*

Cwblhawyd y gwaith MOX ym 1996 ond nid yw wedi dechrau gweithredu yn sgîl pryderon ariannol a sgandal ym 1999 pan ffugiodd gweithwyr BNFL wybodaeth am ddiogelwch ar gyflenwad arbrofol o danwydd MOX oedd yn mynd i adweithydd yn Japan. Mae Japan, hyd yn hyn, wedi gwrthod arwyddo unrhyw gytundebau MOX gyda BNFL sy'n arwyddocaol gan fod Prif Weithredydd BNFL wedi dweud na allai BNFL gyfiawnhau agor y gwaith heb gytundebau Japaneaidd.

Credir bellach na all BNFL fyth adennill costau adeiladu'r gwaith MOX ac mai trethdalwyr fydd yn gorfod cynnal y baich os methir sicrhau cwsmeriaid ar gyfer tanwydd niwclear sy'n ddrutach ac yn fwy peryglus na dewisiadau eraill.

Roedd BNFL wedi gobeithio danfon rhyw 50-80 llwyth llong o danwydd MOX yn y deng mlynedd nesaf o Brydain i dir mawr Ewrop a Japan. Byddai'r llongau hyn yn hwyiio ar hyd arfordir Cymru. Mae llawer o wledydd ar hyd y ffordd wedi mynegi pryder, nid yn unig am ymosodiadau ar y llongau ond hefyd am y perygl y gallai damwain ddigwydd.

## Plaid Cymru'n condemnio penderfyniad Sellafield

Mae Helen Mary Jones AM, Llefarydd yr Wrthblaid ar yr Amgylchedd ar ran Plaid Cymru, wedi condemnio penderfyniad y llywodraeth Brydeinig i roi ganiatad ar gyfer y gwaith MOX. Dywedodd:

*'Dylem fod yn buddsoddi arian mewn datblygu ffynonellau egni cynaliadwy. Mae gan y penderfyniad yma oblygiadau tymor-hir i nod y Cynulliad Cenedlaethol o greu cymdeithas gynaliadwy yng Nghymru. Rhaid i ni ofyn a drafododd Margaret Beckett y penderfyniad yma gyda Sue Essex AC. Oherwydd effaith hyn oll ar amgylchedd Cymru, dylai fod wedi chwarae rhan flaenllaw yn y trafodaethau hyn."*

## Cynlluniau i ehangu gwersyll milwrol yng Nghymru

Mae'r awdurdodau milwrol yn nhre garsiwn Aberhonddu yn gobeithio ehangu eu gwersyll hyfforddi o ryw 120 erw arall. Yn yr ardal hon, sydd yn agos at y dref, priffyrdd a nifer o bentrefi a chymunedau, mae'r fyddin yn gobeithio cynnal rhyw 50 ymarferiad y flwyddyn. Bydd hyfforddi ar y safle newydd yn cynnwys dysgu i filwyr sut i ladd pobl â gynnau peiriant, bidogau a bomiau llaw ac i ddefnyddio 'taranfflachiau'.

Mae swyddogion cynllunio wedi argymell gwrthod y cais cynllunio. Ni fydd cynlluniau blaenorol i leoli'r System Aml-Lansio Rocedi ac AS90 newydd ar Fynydd Epynt yn cael mynd rhagddynt yn awr. Yn ll hynny, bydd rhaid i'r bobl anffodus sy'n byw yng nghyffiniau meysydd tanio yn Northumbria ymdopi ag effaith yr arfau ofnadwy hyn ar yr amgylchedd. Mae hedfan isel gan awyrennau Prydain a'r UD, ac ymarferiadau hyfforddi'r fyddin fel pe baent wedi cynyddu ers diwedd yr haf. Mae hedfan isel, yn enwedig, yn parhau i ddod â gofid mawr i drigolion y rhan fwyaf o gefn gwlad Cymru.

## Gorsaf ynni niwclear Wylfa

Er gwaetha'r problemau parhaus yr honnir eu bod wedi eu datrys ond sydd, mewn gwirionedd, yn gwneud dim ond cynnal system oeri ddiffygiol, mae'r adweithyddion wedi cael eu hailgychwyn. Nid yw problem yr asiadau diffygiol wedi cael ei datrys ac mae problemau cynhenid yr adweithyddion yn parhau. Dylid cau Wylfa nawr.

## Dadgomisiynu Trawsfynydd

Mae Magnox Electric am leihau uchder adeilad yr adweithydd ac adeiladu storfa gwastraff ymbelydrol ar safle'r orsaf ynni niwclear yng ngogledd Cymru. Mae'r cais cynllunio wedi cael ei 'alw i mewn' gan Sue Essex, Gweinidog Amgylchedd y Cynlluniad.

Rhaid i ni sicrhau fod ymchwiliad cyhoeddus trylwyr ac eang ei gwmpas yn cael ei gynnal. Rhaid i'r ymchwiliad yma ystyried pob dewis arall. Rhaid ymchwilio hefyd i oblygiadau technegol gostwng uchder to adeilad yr adweithydd. Nid yw'r llyn llygredig yn dod o fewn y cais cynllunio. Rhaid i ni beidio â chaniatáu anwybyddu'r hyn a allai fod yn ffynhonnell radio-niwclidau marwol. Rhaid ystyried oblygiadau tirlunio'r storfa wastraff i'w chuddio. Ni ddylem ganiatáu i Magnox Electric greu ethos 'yn anweledig, yn anghof' ar gyfer y diwydiant niwclear. Dylai Trawsfynydd barhau i fod yn gofeb yn llygad y cyhoedd i ffolineb niwclear ein cenhedlaeth.

**Rod Stallard**

**Gan ddefnyddio'r pwyntiau uchod, da chi, sgrifennwch at eich Aelod Cynulliad a/neu Sue Essex yn dadlau y dylai'r ymchwiliad arfaethedig fod yn drylwyr ac yn eang ei gwmpas gyda chylch gorchwyl eang, yn cynnwys ystyriaeth lawn o ddewisiadau amgen. Gallwch gysylltu â'ch AC a Sue Essex yn y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA.**

## Trident Ploughshares 2001 yn ennill Gwobr yr Alwedigaeth Iawn

Rhoddir y wobr yma i rai syn gweithio i fynd i'r afael âA gwreiddiau trais ac ansefydlogrwydd yn y byd heddiw: mae Angie Zelter, Ellen Moxley ac Ulla Roder, ar ran Trident Ploughshares, newydd gael eu cydnabod ''am eu hymrwymiad i Heddwch, Cymod a Chyfiawnder... eu hanrhydeddu fel model o weithredu uniongyrchol egwyddorol, agored a di-drais â'r nod o waredu'r byd o arfau niwclear...' Cyflwynwyd y Wobr yn Senedd Sweden ar Ragfyr 7fed. Haeddiannol iawn!

# Allyriant Ymbelydrol - ydy Asiantaeth yr Amgylchedd yn torri'r gyfraith?

Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n gyfrifol am gadw rheolaeth ar allyriant ymbelydrol. 0 dan Ddeddf Amgylchedd 1995, mae dyletswydd cyfreithiol ar yr Asiantaeth i sicrhau ei bod yn seilio ei phenderfyniadau ar wyddoniaeth gadarn ac amrediad eang o farn wyddonol. 'Maen nhw'n torri'r ddwy reol' meddai Richard Bramhall, cydgysylltydd yr Ymgyrch Ymbelydredd Lefel Isel (YYLI). 'Mae rhaid iddyn nhw asesu faint o afiechyd a marwolaethau fydd yn cael eu hachosi drwy ollwng ymbelydredd i mewn i'r amgylchedd, ond maen nhw'n dibynnu'n gyfangwbl ar farn y Bwrdd Diogelwch Ymbelydrol Cenedlaethol. Rydym wedi gosod digonedd o dystiolaeth ger bron o ddiffygion ym methodoleg y Bwrdd, ond mae'r Asiantaeth wedi ymdrin â hynny ag esgeulustod gwarthus. Os byddan nhw'n dal i ymddwyn fel hyn, gallent fod ger bron llys barn cyn bo hir.'

Mae YYLI yn nodi fod dyletswyddau'r Asiantaeth yn ymestyn i faes arfau niwclear yn ogystal ag ynni niwclear. 'Tritiwm - math o hydrogen ymbelydrol - yw un o broblemau mwyaf y Sefydliad Arfau Atomig. Gan ei fod yn ffurfio dwr ymbelydrol, mae'n treiddio'n hawdd iawn i unrhyw system organig. Mae ymchwil yng Nghaerdydd wedi dangos fod Tritiwm yn fygythiad llechwraidd i iechyd y mae'r Asiantaeth wedi ei anwybyddu'n llwyr am nad yw'r Bwrdd wedi ei gymryd i ystyriaeth.'Mae YYLI wedi cyhoeddi papur cefndir - '*The Environment Agency at the Crossroads*' - gyda digon o bwyntiau gweithredu. 'Yn rhyfedd ddigon', meddai Bramhall, 'mae cael rheolaethwyr i ystyried gwyddoniaeth newydd yn fater gwleidyddol, ac mae gweithredwyr yn chwarae rhan ganolog.'

heddweithredu! **Mae Papur Cefndir YYLI ar gael ar y we yn www.llrc.org neu drwy'r post gan YYLI, Y Knoll, Park Montpellier, Llandrindod, Powys LD1 5LW tel: 01597 824771 ebost: bramhall@llrc.org**

## Tritiwm yng Nghaerdydd


Mae ymchwil yn ardal Bae Caerdydd wedi dangos cysylltiad rhwng cancr a Thritiwm mae ffatri isotopau meddygol Nycomed Amersham yn ei ollwng i mewn i afon Taf. Mae cyfraddau cancr y fron a'r ysgyfaint, yn ogystal â chyfuniad o bob cancr, yn sylweddol uwch yn y wardiau is i lawr yr afon ac ar yr arfordir. Effeithir ar gyfartaledd tebyg o ddynion a menywod. Canlyniadau rhagarweiniol yr Archwiliad Gwyrdd yw'r rhain. Cyhoeddir yr ymchwil yn gynnar y flwyddyn nesaf. Mae canlyniadau newydd-eu-cyhoeddi gan Imperial College hefyd yn dangos cyfradd uwch o gamffurfiad cynhenid o gwmpas gwaith Nycomed Amersham.

heddweithredu! **Mwy o wybodaeth gan Community Concern: (029) 20 813 346**

# Grwp cymuned newydd yn meddwl yn gynaliadwy

Mae menter gymuned Gymreig newydd gyffrous o'r enw Grwp Egni Adnewyddadwy Cothi (GEAC) wedi cael ei sefydlu yn Sir Gaerfyrddin gyda chyllid gan Amgylchedd Cymru. Ffrwyth ysbrydoliaeth pobl yn byw yng ngyffiniau Fforest Brechfa, sy'n rhannu pryderon am galedi cefn gwlad ac sy'n frwd o braid systemau egni adnewyddadwy cymuned, yw'r fenter yma.

Mae'r fferm wynt gymuned arfaethedig, Awel Aman Tawe, ger Brynaman, y disgwyiir iddi ddenu incwm o hyd at £380,000 y flwyddyn ar gyfer trigolion lleol, yn galondid i GEAC. Ym Mrynaman, bwriedir ailfuddsoddir arian yma mewn projectau lleol yng nghymuned Brynaman.



Os penderfyna GEAC ddatblygu'r dewis o fferm wynt gymunedol, mae'n gobeithio rhedeg tripiau am ddim i ffermydd gwynt lleol er mwyn i gymaint o bobl â phosibl gael gweld tyrbinau gwynt â'u llygaid eu hunain. 'Fel yn achos Awel Aman Tawe lle cynhaliwyd refferendwm, cyn gynted ag y byddai'r cynlluniau ar gyfer project yn barod, byddai GEAC yn ceisio cefnogaeth y gymuned cyn gosod unrhyw geisiadau cynllunio ger bron' meddai Sheila.

Mae'r grwp ifanc wedi bod wrthi eisoes yn hyrwyddo egni adnewyddadwy. Mae GEAC wrthin trafod gydag Awdurdod Datblygu Cymru, Menter y Coedwigoedd, Cyngor Sir Caerfyrddin, a'r grwp rheolaeth coedwigoedd cymunedol, Pobl y Fforest, y posibilrwydd o gynllun biomas, sef llosgi coed gwastraff i gyflenwi egni i'r gymuned.

heddweithredu! **Mae gwefan GEAC www.cothi-reg.co.uk yn cynnwys gwybodaeth a chyngor am egni adnewyddadwy i'r cartref ac arbed egni. Gellir cael y newyddion diweddaraf drwy'r post gan: GEAC, Ysgoldy Clawddowen, Llanfynydd, Caerfyrddin SA32 7TN neu ebost cliff@cothi-reg.co.uk.**

# Dathliadau Ugainmlwyddiant Greenham

## *'Rhwng y byd a phwer dinistriol annychmygadwy arfau niwclear'*



Daethom o bob man i Gaerdydd i ddathlu ar y 27ain o Awst 2001, ugain mlynedd wedi i'r cerddwyr gwreiddiol ymadael â Chaerdydd i brotestio am leoli taflegrau niwclear cruise yr UD ym Mhrydain, ym Maes Awyr yr UD ar Gomin Greenham. Tywynnodd yr haul arnom oll wrth i ni ymgynnull y tu allan i Neuadd y Ddinas, Caerdydd; chwythodd awel fywiog y dathliad drwy'r cwmni llawen a disgieiriai'r baneri - rhai gwreiddiol a rhai o faneri heddwch a gwrth-niwclear godidog y teulu Campbell o'r 1980au.

Roedd y siaradwyr drwy gydol y dydd yn cynnwys Julie Morgan AS, Jane Hutt AC, Carol Harwood (a ddisgrifiodd y brotest hyfryd o wagio bagiau o flawd o oriel yr ymwelwyr yn Nhy'r Cyffredin), dwy o'r cerddwyr gwreiddiol, Eunice Stallard ac Ann Pettitt, un o hoelion wyth Greenham, Sarah Hipperson, Paul Flynn, yr eofn Helen John, David Morris.......... Canodd Côr Cochion Caerdydd a Frankie Armstrong gymysgedd tanbaid o ganeuon a negeseuon cryf.

Roedd yno awyrgylch aduniad ond hefyd benderfyniad cadarn i fwrw ymlaen â'r ymgyrch dros heddwch a chyfiawnder. Danfonwyd neges yn mynegi atgasedd tuag at raglen 'Star Wars' arfaethedig yr UD at Tony Blair. Dadorchuddiwyd carreg goffa yng ngardd y Demli Heddwch gan Christopher Lent a Becky Tyrell, a oedd ill dau ar y daith gerdded gyntaf honno i Greenham yn blant bychain.

Ychwanegwyd at yr arddangosfa fendigedig a grewyd gan Swyddfa Cofnodion Morgannwg gan ffotograffau a deunydd arall y daeth pobl gyda nhw ar y dydd. Roedd ffotograff o dapestri Greenham anhygoel Vera Jones yn cael ei arddangos hefyd. Roedd y cerflun Greenham pwerus, sydd bellach wedi ei gwblhau ac sy'n dal i chwilio am safle, yno hefyd. Lansiwyd fideo newydd, 'And the Fence Came Tumbling Down', gan Atomic Mirror. Cafodd llawer o fenywod y fideo byr yma, sy'n adrodd hanes Ymgyrch Greenham ac adfer y Comin, yn deimladwy iawn. Mae cynlluniau ar y gweill am fersiwn Gymraeg o'r fideo yma a'r pecyn addysgol cysylltiedig a gynhyrchwyd yn Lloegr.

Symudodd y dathliad ymlaen yn ddiweddarach yn y dydd i Eglwys Gymunedol Eton Road yng Nghasnewydd lle treuluodd y cerddwyr gwreiddiol eu noson gyntaf ar y ffordd ugain mlynedd ynghynt. Dadorchuddiwyd chwaer-gofeb i'r un a gawsai ei gosod yng ngardd y Deml Heddwch yn gynharach, gan y Cynghorydd Sue Lent a Maer Casnewydd, Ron Morris. Cymeradwywyd y gefnogaeth a roddwyd i'r ymgyrch gan y diweddar Cyril Summers a'i wraig. Dwedodd Paul Flynn, AS Gorllewin Casnewydd, *'Gosododd menywod Greenham eu cyrff bregus a hawdd eu niweidio rhwng y byd a phwer dinistriol annychmygadwy arfau niwclear. Mae Greenham wedi ei ddadgomisiynu. Mae bywyd yn mynd yn ei flaen. Ond mae Dubya Bush yn mynd yn ei flaen hefyd. Y wers yw, peidiwch byth â than-amcanfyfrif twpdra arweinyddion y byd.'*

Sgrifennodd Rowena Thomas o Wrecsam wedi hynny: *"Galwodd y dydd i gof gymaint o'r digwyddiadau y buom yn rhan ohonynt ugain mlynedd yn ôl. I mi roedd yr ugain mlynedd hynny mor gyffrous - yr hwyl, y gwmnïaeth, difrifoldeb ein nod, cafodd y cwbl eu cofio y diwrnod hwnnw. Roedd cwrdd â phobl eto wedi'r holl flynyddoedd a gweld pobl o genhedlaeth newydd yn dechrau chwarae rhan yn brofiad bywiol iawn."*

Ym mis Medi dathlwyd yr ugain mlwyddiant eto mewn cyfarfod a drefnwyd ar y cyd gan y Grwp Cydweithredol a menywod lleol yng Nghanolfan yr Amgylchedd yn Abertawe. Rhoddwyd cyflwyniad am y cerflun, baneri Greenham a'r Tren Heddwch a deithiodd drwy Ewrop i Gynhadledd Menywod y CU yn Beijing yng nghanol y 1990au. Dwedodd Sue Stockwell, Swyddog Cysylltiadau Aelodau y Grwp Cydweithredol ac un o gyd-drefnwyr y digwyddiadau, *"Mae'n ymddangos yn dra eironig ein bod yn dathlu'r digwyddiadau hanesyddol hyn tra bod pryder yn cynyddu ledled y byd am gynlluniau cyfredol yr UD i ddatblygu a lleoli systemau arfau newydd."*




Cymerodd Archif Menywod Cymru yr Ugain Mlwyddiant yn thema i'w Cyfarfod Cyffredinol ym mis Tachwedd hefyd.

Mae'r cyfrifon ar gyfer Dathliad Greenham yng Nghaerdydd a Chasnewydd wedi cael eu harchwilio a gellir eu gweld drwy gysylltu â'r Trysorydd, Ruth Osborn (01633) 251 548. Diolch i bawb a helpodd i wneud yr achlysur yn un mor llwyddiannus.

Jill Stallard

# Safle Coffa Greenham yn mynd rhagddo




Daeth menywod o Gymundod Apêl Cronfa Goffa Greenham a'u cefnogwyr ynghyd i'r Llannerch ger y Glwyd Felen ar Gomin Greenham i sefydlu'r Safle Coffa a Hanesyddol. Bydd y safle'n cael ei ddatblygu ar y tir a oedd yn gartref i Wersyll Heddwch y Menywod am 19 blynedd. Rhoddwyd caniatad cynllunio gan Gyngor West Berkshire ym mis Hydref 2000.

Roedd llawer o'r menywod oedd yno yn bresennol yn nathliadau ugainmlwyddiant y 27ain o Awst yng Nghaerdydd lle dadorchuddiwyd Carreg Goffa. Roedd y ddau ddathliad yn atgof pwysig o rym menter bersonol a thorfol. Pan fydd cenedlaethau i ddod yn archwilio hanes y Rhyfel Oer, byddant yn deall y rhan bwysig a chwaraewyd gan fudiad heddwch y menywod, a dylanwad trawsffurfiol eu protest faith a llwyddiannus.

Bu Michael Marriott FRBS, y bydd ei gerfluniau'n ffurfio prif ran y safle, yn trafod ei waith: y Fflam, wedi ei hamgylchynu gan saith Maen Hir a'r Sbiral sy'n cynrychioli parhad gwaith dros heddwch. Gobeithir gosod y seiliau cyn diwedd y fiwyddyn.

Diolchwyd i Undeb Cenedlaethol y Glowyr am eu cyfraniad hael o £5,000, ynghyd a'r rhodd o £1,000 gan Chwiriorydd Heddwch Sant Joseff o Gaerlyr, a'u gweddïau dros lwyddiant y safle. Mae CND Cymru wedi cyfrannu tuag at y safle hefyd. Diolchwyd i'r holl gyfranwyr am eu haelioni, gan mai'r gefnogaeth hon sydd wedi dwyn y project at ei drothwy hyderus.

Siaradodd Arthur Scargill, Llywydd Undeb y Glowyr ac Ysgrifennydd Cyffredinol y Blaid Lafur Sosialaidd, am ddyddiau cynnar y Gwersyll Heddwch pan ddaeth glowyr â glo yno gadw'r tanau i losgi. Talodd deyrnged i'r 'grwp ardderchocaf o fenywod a welodd y wlad hon erioed' a chymharodd y frwydr i gau'r gwersyll â Mudiad y Swffragetiaid.



Planwyd derwen ifanc, a achubwyd pan ddinistriwyd 10,000 o goed i adeiladu ffordd osgoi Newbury, gan blant.

Ysgrifennodd cefnogwr oedrannus at ei bapur lleol, "Roeddwn yn bresennol yng Nghomin Greenham ar yr 8fed o Fedi, a byddai wedi bod yn anodd dod o hyd i le hapusach'. Byddai pawb yn cytuno â hynny.

**Sarah Hipperson, ar ran Cywaith Apêl Cronfa Goffa Greenham.**

heddweithredu! Mae angen help i gwbihau'r Safle Coffa o hyd. Bydd angen £50,000 arall felly, da chi, ystyriwch ddanfon cyfraniad at: Apêl Cronfa Goffa Greenham - Dept. GCWPC, 15 Sydney Road, Wanstead, Llundain E11 2JW.

## Cyfarfod Cyffredinol CND Cymru

Yng Nghyfarfod Cyffredinol mis Tachwedd, etholodd CND Cymru Jill Evans ASE yn Gadeirydd ac Olwen Davies (Canolbarth), Ray Davies (de Cymru) a Rod Stallard yn Is-gadeiryddion. Etholwyd Jean Bryant yn Drysorydd. Mae'n hanfodol bwysig nawr fod CND Cymru yn dod o hyd i gysylltydd ar gyfer gog;edd Cymru gan fod swydd yr Is-gadeirydd yno yn wag. Croesawyd Sid Jefferies fel ysgrifennydd.

Ffarweliodd CND Cymru â'r Cadeirydd oedd yn ymddeol, David Morris. Mae David, sosialydd o heddychwr cristnogol ag egwyddorion cadarn, wedi gweithio'n galed dros CND Cymru ers 10 mlynedd o fewn y mudiad Ewropeaidd fel ASE, a wedi hynny, ar ôl cael ei ddad-ddethol ym 1998. Fe'n sicrhawyd gan David, sydd wedi bod yn weithgar dros ben yn yr ymgyrch ddiweddar yn erbyn y rhyfel, y byddai'n parhau i weithio dros heddwch a chyfiawnder bob amser. Diolchwyd i Dave Andrews am ei gyfraniad fel Is-gadeirydd gogledd Cymru, ac i'r holl swyddogion a gweithwyr am y gwaith cefnogi ac ymgyrchu pwysig a wnaed ganddynt yn ystod y flwyddyn.

Bydd llawer ohonoch yn cofio Jill Evans fel ymgyrchydd heddwch gweithgar dros ben yn y 1980au a'r 1990au. Fel Is-gadeirydd CND Cymru bu'n cefnogi gwersyll heddwch y menywod yng Nghomin Greenham ac yn ymgyrchu yng Nghymru yn erbyn taflegrau niwclear cruise, paratoadau ar gyfer rhyfel niwclear, ynni niwclear a Rhyfel y Gwlff. Fel ASE, mae wedi parhau â'i hymrwymiad i heddwch a chyfiawnder yn y byd.

## cysylltiadau cnd cymru

**cadeirydd:**
Jill Evans MEP (01978) 311 564
**vice chairsis-gaderyddion**
Rod Stallard (01550) 750 260
**gogledd cymru**
vacant
**y canolbarth**
Olwen Davies (01970) 611994
**de cymru**
Ray Davies (029 20) 889514
**ysgrifenydd:**
Sid Jefferies, Ynyswye, Erwood, Builth, LD2 3YT (01982) 560 356
**golygydd heddwch**
Jill Stallard, Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri SA20 0LR (01550)750 260
heddwch@nantgaredig.freeuk.com
**aelodaeth &aelodau cysylltiol:**
Brian Jones, 72, Heol Gwyn, Yr Alltwen, Pontardawe SA8 3AN
**masnachu**
Jan Henderson (01792)830 330
**trysorydd:**
Jean Bryant, 16, Ty'n y Cymer Close, Porth, Y Rhondda CF39 9DE

**mwy o wybodaeth, syniadau neu gymorth i'w gynnig? cysylltwch â'ch is gadeirydd cnd cymru agosaf da chi!**



## heddwch

**yw cylchgrawn yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru (CND Cymru). Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu o fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd. Croeso i sylwadau, llythyron ac erthyglau - cysylltwch â'r golygydd, os gwelwch yn dda.**

## Confensiwn Heddwch Mawrth 8fed - 9fed 2001 Y Deml Heddwch, Caerdydd Byddwch yno!

Bydd Mawrth 2002 yn fis Mawrth prysur arall gyda Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, Diwrnod Gweddi Rhyngwladol y Menywod, a Phythefnos Fairtrade oll yn digwydd o fewn yr un cyfnod o ychydig o wythnosau. Un digwyddiad sy'n anelu at gwmpasu a dathlu'r holl weithgareddau hyn yw Confensiwn Gwanwyn Cynefin y Werin/Common Ground a gynhelir ar yr 8fed - 9fed o Fawrth.

Rhwydwaith yw Cynefin y Werin/Common Ground o fudiadau Cymreig sy'n gweithio gyda'u gilydd i hyrwyddo heddwch, hawliau dynol, cyfleoedd cyfartal a datblygu cynaliadwy. Ffurfiwyd y rhwydwaith i alluogi cyrff ymgyrchu, eglwysi, grwpiau cymuned a mudiadau datblygu i gyfnewid syniadau, newyddion a phryderon ynglyn â'u brwydr gyffredin o blaid byd mwy cyfiawn a mwy teg. Mae'r rhwydwaith yn cwrdd yn rheolaidd fel grwpiau gogledd a de Cymru, ac fel corff cenedlaethol bob tri mis yn Aberystwyth. Bydd Confensiwn y Gwanwyn yn cynnwys cyfres o siaradwyr, gweithdai a digwyddiadau ar thema neilltuol. Thema 2002 fydd Degawd Rhyngwladol Diwylliant o Heddwch a Dim Trais.

Bydd y Confensiwn yn cychwyn ddydd Gwener 8 Mawrth pan fydd Carol Naughton, Cadeirydd CND Prydeinig yn siarad ar gyfraniad menywod i heddwch. Ar ddydd Sadwrn 9 Mawrth bydd gweithdai ar fasnach rhyngwladol, y fasnach arfau, ac ymgyrchu llwyddiannus, drwy gydol y dydd, â'r nod o annog mwy o bobl i ddechrau chwarae rhan a gweithredu ar faterion sy'n effeithio ar ein byd. Bydd cyfle hefyd i drafod yr argyfwng rhyngwladol presennol ac archwilio yn fwy trylwyr beth sydd wrth wraidd brawychiaeth, a sut y gellir mynd i'r afael â'r rhain. Bydd y gweithdai'n cloi gyda sesiwn lawn i bawb gael rhannu casgliadau'r dydd.

Gyda'r nos, cynhelir ail gyfarfod cyhoeddus i drafod byd-eangyddiaeth, a milwreiddio'r gofod, gyda bwyd, cerddoriaeth a dawnsio wedi hynny tan yr oriau mân! Arweinwyr y gweithdai fydd cynrychiolwyr o Oxfam, Cymorth Cristnogol, Ymgyrch Dileu'r Fasnach Arfau, CCU Cymru, Ymgyrch Cydgadernid Nicaragua, a rhai o aelodau eraill Cynefin y Werin. Da chi, dewch i'r digwyddiad cyfan neu i ran ohono i ddechrau'r drafodaeth, gwneud cysylltiadau affrindiaunewydd, dathlu a chyfnewid barn! Peidiwch ag oedi - rhowch y dyddiad yn eich dyddiadur 2002 newydd sbonnawr!

**Clare Sain-ley-Berry Canolfan Cymru dros Faterion Rhyngwladol**

heddweithredu! **Ymunwch, mwy o fanylion gan Clare Sain-ley-Berry 029 2022 8549 claresainleyberry@wcia.org.uk**
**http://www.iccynefin-y-werin.co.uk/**

Golygu a chysodi gan Jill Stallard (01550) 750260 (heddwch@nantgaredig.freeuk.com)
Cyfieithu gan Siân Edwards (sian@derwen.demon.co.uk)
Argraffwyd gan Redkite Print (01591) 610844 (Redkite@onyxnet.co.uk)
Pacio gan wirfoddolwyr yng Nghaerdydd - i ymuno â'r hapus dyrfa hon, am brynhawn bob rhyw 2-3 mis, cysyllter â Brian Jones (01792) 830330